**Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru**
**Datganiad i'r Wasg**
**I'w ryddhau ar unwaith**
02920 491818 | 07815 071164
www.neu.org.uk
www.Facebook.com/nationaleducationunion
www.Twitter.com/@NEUnion

9fed Tachwedd 2019

## Mae angen cynllun cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth ar ysgolion Cymru

Mae undeb addysg fwyaf Cymru wedi mynegi pryder mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU nad oes ganddi gynllun cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth. Mae Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru yn deall bod addysg gerddoriaeth ac arbenigedd offerynnol yn dod yn elitaidd ac ar gael i'r rhai sy'n gallu ei fforddio yn unig ac nad yw hyn yn deg nac yn iawn.

Dywedodd **David Evans**, Ysgrifennydd Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru:

"Mae creadigrwydd wrth wraidd y cynlluniau ar gyfer y Cwricwlwm newydd, felly mae angen cymryd pryderon aelodau am gerddoriaeth mewn ysgolion o ddifrif.

"Byddwn yn edrych i weithio gyda'n partneriaid i dynnu sylw at gyflwr addysg gerddoriaeth, a gofyn i Lywodraeth Cymru baratoi cynllun wedi'i gostio, er mwyn sicrhau ei fod o fudd i bob person ifanc yng Nghymru ac nad yw ein hanes cerddorol balch yn cael ei golli.

GORFFEN

Roedd testun y cynnig i gynhadledd ar y mater hwn fel a ganlyn

**Cynnig 11. Cerddoriaeth**

Mae Cynhadledd Cymru yn dymuno mynegi pryder mai Cymru yw'r unig wlad yn y DU nad oes ganddi gynllun cenedlaethol ar gyfer Cerddoriaeth.

Yn yr hyn a elwir yn "Wlad y Gân" mae hon yn sefyllfa warthus. Addysg gerddoriaeth, arbenigedd offerynnol – mae'r rhain yn dod yn barth y rhai sydd ag arian ac yn deyrnas elitaidd nad yw'n deg nac yn iawn.

Mae Cynhadledd Cymru yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol gydag NEU Cymru i ymgyrchu, negodi a thrafod gyda Llywodraeth Cymru sut y dylid paratoi, costio a gweithredu cynllun o'r fath er budd pob person ifanc yng Nghymru.

Mae Cynhadledd Cymru yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol ymhellach i weithio gyda'r holl bartïon sydd â diddordeb i sicrhau nad yw ein treftadaeth gyfoethog o gerddoriaeth yn dod yn rhywbeth sy'n perthyn i'r gorffennol.

**Diwygiad**

i.) Ychwanegu paragraff newydd:

"Ac i'r perwyl hwn, mae Cynhadledd Cymru hefyd yn cyfarwyddo'r Adran Weithredol i lobïo:

1. Llywodraeth Cymru i gynyddu'r cyllid i'r ALl ar gyfer darparu gwasanaethau cerdd.
2. Awdurdodau Lleol i neilltuo mwy o gyllid ar gyfer gwasanaethau cerddoriaeth yn eu Hawdurdodau.
3. Llywodraeth Cymru i ariannu cynllun benthyca / hawl i brynu ar gyfer offerynnau i alluogi myfyrwyr i gael mynediad parhaol at offeryn er mwyn iddynt gael mynediad at hyfforddiant gwasanaethau cerdd.
4. I sefydlu 'safon aur' y mae pob sir yn cael ei fesur arno - ac a gyhoeddir - sy'n nodi ansawdd y ddarpariaeth (safonau, cyllid a chynwysoldeb).

**<u>Cysylltiadau'r wasg:</u>**

Mae'r Undeb Addysg Genedlaethol yn gyfuniad o Gymdeithas yr Athrawon a Darlithwyr (ATL) ac Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT), a ffurfiwyd ar 1 Medi 2017. Gweler y manylion cyswllt isod am gymorth:

***Cyswllt: Stuart Williams, Undeb Addysg Cenedlaethol Cymru, Tŷ Sinnott, 18 Llys Neifion, Ffordd Vanguard, Caerdydd CF24 5PJ. Ffôn: 029 20491818. Symudol: 07795 295 355.***

***e-bost: stuart.williams@neu.org.uk***

**Nodyn i olygyddion:**

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn sefyll ar gyfer dyfodol addysg. Mae'n dod â lleisiau athrawon, darlithwyr, staff cefnogi ac arweinwyr sy'n gweithio mewn ysgolion a cholegau cynaledig ac annibynnol ynghyd i ffurfio'r undeb addysg fwyaf yng Nghymru.

- Mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol yn gysylltiedig â Chyngres Undebau Llafur (TUC), Pwyllgor Undeb Llafur Ewrop ar gyfer Addysg (ETUCE) ac Addysg Ryngwladol (EI). Nid yw'n gysylltiedig ag unrhyw blaid wleidyddol ac mae'n ceisio gweithio'n adeiladol gyda'r holl brif bleidiau gwleidyddol.